141

Gwynli Jones
Ceg-y-Bar, Llandanwg, Harlech, LL46 2SB
01766 780 064

20 JUN 2008
APSD

9 Mehefin, 2008

Tom Williams Ysw
Swyddog Cynorthwyol y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Mr Williams

**DEISEB - MAES AWYR LLANBEDR**

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 4 Mehefin, 2008 yn cadarnhau bod Llywydd y Cynulliad wedi derbyn y ddeiseb uchod gan ei gyfeirio yn swyddogol i'r Pwyllgor Deisebau.

Rydych yn gofyn am wybodaeth pellach ynglŷn â'r weithred yr wyf wedi ei gymryd cyn cyflwyno'r ddeiseb.

Mae yna gefnogaeth bron yn unfrydol yn lleol i'r cynnig i ail agor Maes Awyr Llanbedr, neu y Camp fel mae'n cael ei adnabod yn lleol. Rwyf wedi ymgynghori yn lleol yn cynnwys y Cynghorwyr Sir ar hyd arfordir Ardudwy, y Cynghorau Cymuned, Cyngor Gwynedd, yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis-Thomas a'r Aelod Seneddol, Elfyn Llwyd. Mae pob un ohonynt yn gefnogol i weld y Camp yn cael ei datblygu.

Yn dilyn y Gwrthwynebiad gan Gymdeithas Eryri (hoffwn nodi bod rhai o aelodau y Gymdeithas yn anghytuno yn llwyr â safiad Cymdeithas Eryri) cefais drafodaeth gyda John Webb, sy'n byw yn lleol yn Llandanwg. Mae John Webb wedi gweithio fel Peilot ym Maes Awyr Llanbedr yn y gorffennol ac yn Beilot yn Aberporth ar hyn o bryd.

Ar 10 Mai, 2008, oherwydd ymgyrch Cymdeithas Eryri gwnaeth John Webb a minnau benderfynu llunio deiseb, a llwyddwyd i gael dros 1,000 o lofnodion o blaid cynnig Llywodraeth y Cynulliad i lesu'r safle i gwmni Kemble. Rwyf hefyd wedi bod mewn trafodaeth cyson gyda Kemble ynglyn a'u bwriadau ac mae Kemble wedi ymgynghori gyda'r gymuned leol.

Cyn cau Maes Awyr Llanbedr yn 2004 roedd y Camp yn cynnig cyflogaeth a chyfleoedd gwaith pwysig iawn i'r ardal gan gynnwys prentisiaeth. Mae'r newydd ynglyn â'r bwriad i ailagor y Camp yn amlwg wedi cyffwrdd pobl Llanbedr mewn ffordd bositif a'r trigolion yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at gryfhau yr economi leol gan gynnig cyfleodd gwaith i bobl ifanc yr ardal unwaith eto.

Y camau nesaf yr hoffwn ei weld yw bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y les yn cael ei chadarnhau gyda Kemble a bod y Camp yn cael ei ddatblygu mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy i gryfhau'r economi leol. Mae modd rhedeg y safle mewn ffordd sensitif lle na fyddai sŵn awyrennau yn effeithio ar y trigolion lleol drwy ddilyn y llinell dros y môr. Credaf bod yma hefyd gyfle i ddatblygu cyfleon o ran y sector twristiaeth.

Fe fyddwn i, John Webb, ac Aled Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn barod iawn i ddod i'r Senedd i drafod ymhellach gydag Aelodau'r Pwyllgor Deisebau, ac fe fyddai eraill ar gael hefyd os oes angen.

Mae'r ddeiseb yn dangos bod cefnogaeth amlwg yn lleol i'r cynnig ar gyfer ail ddatblygu Maes Awyr Llanbedr ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am eu sylw i'r mater.

Yn gywir iawn

Gwynli Jones